# <u>DATGANIAD O'R RHESYMAU</u>

## MESUR ARFAETHEDIG I ARAFU TRAFFIG
## AT DDIBENION TEITHIO LLESOL –

## HEOL CWMGARW YM MRYNAMAN

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cyflwyno twmpath arafu estynedig â brig gwastad ar Heol Cwmgarw, mewn lleoliad tua 10 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Heol y Mynydd ym Mrynaman.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn bod y mesur yn angenrheidiol:

a) er budd diogelwch ar y ffyrdd, ac
b) er mwyn sicrhau bod cerbydau'n gyrru'n araf mewn ardaloedd preswyl, ardaloedd o lwybrau cerdded i ysgolion ac yng nghyffiniau'r croesfannau heb eu rheoli i gerddwyr, sydd wedi'u cynllunio ac sy'n bodoli eisoes.